

Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) - Cwestiynau Cyffredin

Mae'r cynllun yn ôl disgrisiwn ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) yn ymwneud â hawliadau esgeuluster clinigol posibl neu wirioneddol sy'n codi o ddigwyddiadau ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny, ac mae'n cynnwys yr holl staff Ymarfer Meddygol Cyffredinol (practisiau meddygon teulu) sy'n ymgymryd â 'gwasanaethau meddygol sylfaenol' y GIG fel y'u diffinnir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019:

gwasanaethau meddygol sylfaenol: gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan gontract, trefniant neu gytundeb a wnaed o dan neu yn rhinwedd yr adrannau canlynol o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006:

(a) adran 41(2) (gwasanaethau meddygol sylfaenol);

(b) adran 42(1) (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol);

(c) adran 50 (trefniadau gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol).

- Ewch i <https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-cyfreithiol-a-risg/meysydd-arfer/indemniad-ymarfer-meddygol-cyffredinol/> i gael mynediad i'n Cynllun ar gyfer Canllawiau Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol sy'n darparu gwybodaeth bellach am y cynllun, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â meddygon locwm a System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu.
- Mae angen i feddygon teulu locwm sy'n dymuno cael eu cynnwys ar Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan ("AWLR") wneud cais i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru os ydynt am gael mynediad i'r cynllun ar gyfer GMPI. (Gweler y cofnod 'Meddygon Teulu Locwm' isod). Nodir gofynion penodol ar gyfer meddygon teulu locwm yn Atodiad B o Ganllawiau'r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol. Mae gweithredu Atodiad B yn ddarostyngedig i'r cyfathrebiad a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2020 (yr Is-Atodiad i Atodiad B) y gellir ei gyrchu ar ein gwefan.
- Mae'r rheoliadau'n penderfynu pa weithgareddau sy'n cael eu cynnwys gan y cynllun. Mae'r ddogfen hon yn nodi swyddogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC fel gweithredwr y cynllun o ran ystod o weithgareddau nad ydynt yn gynhwysfawr. Mae'n seiliedig ar yr wybodaeth y mae Byrddau Iechyd a darparwyr wedi'i rhoi inni am weithgareddau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, yng nghyd-destun yr ymholiadau niferus a dderbyniom ers cychwyn y cynllun. Ni fwriedir iddo ymestyn cylch gwaith y rheoliadau i gynnwys gweithgareddau nad ydynt yn cael eu cynnwys. Nid oes gennym unrhyw ddisgrisiwn i gynnwys

gweithgareddau sydd y tu allan i gylch gwaith y rheoliadau. Os ydych yn ansicr a yw gweithgaredd penodol yn dod o fewn ‘gwasanaethau meddygol sylfaenol’ fel y’u diffinnir uchod, cysylltwch â’ch Bwrdd Iechyd.

- Bydd angen i feddygon teulu a phractisiau meddygon teulu sicrhau yswiriant indemniad proffesiynol priodol gyda sefydliad amddiffyn meddygol ar gyfer yr elfennau hynny o’u practisiau nad ydynt wedi’u cynnwys yn y cynllun. Yn ogystal, bydd angen indemniad neu yswiriant ar bractisiau meddygon teulu er mwyn cwmpasu atebolrwydd cyflogwyr, atebolrwydd cyhoeddus a hawliadau eiddo, ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â’r GIG a gweithgareddau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun.
- Os oes gennych ymholiad yn ymwneud â gweithgaredd nad yw wedi’i restru isod, cysylltwch â’r tîm GMPI trwy GMPI@wales.nhs.uk neu ffoniwch linell gymorth GMPI ar 029 2090 5454.

Mae cyfeiriadau yn y Cwestiynau Cyffredin isod at staff ‘a gyflogir’ gan feddygfa yng Nghymru yn cynnwys staff a gyflogir trwy drefniadau clwstwr gofal sylfaenol a staff dan gontract, (**fodd bynnag** gweler y cofnod ‘Meddygon Teulu Locwm’ isod).

Gweithgaredd/Ymholiad	A yw wedi’i gynnwys yn yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)?		Manylion pellach
	Ydy, <u>ar yr amod</u> ei fod yn wasanaeth meddygol sylfaenol y GIG (Cymru) yn unol â’r diffiniad uchod ac nid o dan drefniant gwahanol	Nac ydy	
Oedi wrth ddarparu ambiwlansys yn y gymuned – E.e. - rhoi cyngor i’r claf i drefnu cludiant preifat i ofal eilaidd; neu - o dan amgylchiadau eithriadol, rhoi cyngor			Gweler y ddogfen sydd ynghlwm ‘Cymhwyso’r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) pan fo oedi wrth ddarparu ambiwlansys yn y gymuned’.

i'r claf y gall y Meddyg Teulu – neu aelod o staff y practis – ei gludo i'r Ysbyty yn bersonol			
Clystyrau	✓		Bydd pob meddyg teulu a Gweithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n gyflogedig neu'n ymwneud â Phractisiau Meddygol Cyffredinol gan gynnwys trefniadau clwstr Gofal Sylfaenol (ac eithrio meddygon teulu locwm nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion penodol a nodir yn Atodiad B y Cynllun ar gyfer Canllawiau GMPI), sy'n darparu Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol y GIG yn cael eu cynnwys yn awtomatig gan GMPI. Gweler 'Meddygon Teulu locwm' isod am ragor o wybodaeth am ofynion penodol Meddygon Teulu Locwm.
Gosod a thynnu mewnbaniadau coil	✓		
Brechiadau COVID-19	✓		Caiff gofal a thriniaeth cleifion sydd â COVID-19 neu sydd â COVID-19 tybiedig eu cwmpasu gan GMPI os caiff "gwasanaeth meddygol sylfaenol" ei ddarparu. Lle bo modd, anfonwch e-bost at dîm GMPI gydag unrhyw ymholiadau ynghylch COVID-19. Gweler hefyd <u>Ganllawiau PCGC ar Drefniadau Indemniad yn ystod Pandemig y Coronafeirws sydd hefyd yn cynnwys adran ar "Frechiadau Covid-19".</u>

Gwaith trawsffiniol – practisiau yn Lloegr yn gweld cleifion sy'n byw yng Nghymru a Lloegr Neu Practisiau yng Nghymru yn gweld cleifion sy'n byw yng Nghymru a Lloegr			Os darperir triniaeth i glaf yng nghydestun Rhestr Cyflawnwyr Meddygol Cymru ac fe'i darperir dan gontract Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol GIG Cymru, bydd GMPI yn berthnasol a dylai'r Practis Meddygol Cyffredinol hysbysu Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Felly, bydd y sefyllfa indemniad yn dibynnu ar y contract sydd ar waith gyda'r Practis Meddygon Teulu yr ydych yn gweithio ynddo, yn hytrach na'r wlad y mae'r gofal yn tarddu ohoni neu o ble y daw'r claf. Os oes gan y Practis yr ydych yn gweithio ynddo drefniant "gwasanaethau meddygol sylfaenol" GIG Cymru, bydd GMPI yn berthnasol. Ni fydd GMPI yn gymwys os oes trefniant cytundebol yn Lloegr ar waith. Ni allwn ddarparu unrhyw ganllawiau ar gynllun indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth yn Lloegr a bydd angen i chi gysylltu â NHS Resolution ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â hyn. Gallwch ddod o hyd i'w manylion yma: Clinical Negligence Scheme for General Practice - NHS Resolution. Bydd gan bob practis ei drefniadau cytundebol ei hun. Nid yw'r tîm GMPI yn cadw'r wybodaeth hon. Rydym yn argymhell eich bod, yn y lle cyntaf, yn holi'r Rheolwr Practis pa drefniant sydd gan ei bractis gyda'i Fwrdd Iechyd Lleol / Ymddiriedolaeth GIG berthnasol.
--	--	--	--

Dosbarthu – gan feddyg teulu/staff practis meddyg teulu OS darperir ar ei gyfer yn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	✓		Ni fydd y GMPI yn cynnwys dosbarthu <u>oni bai</u> y darperir ar ei gyfer yn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, ac os felly bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun. Dylai ymarferwyr wirio'r contract sydd ganddynt ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd ac os ydynt yn dal yn ansicr, bydd angen i chi wirio gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol.
Dosbarthu – gan Fferylllydd a gyflogir gan bractis meddyg teulu ac sy'n gweithredu ohono o dan gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y practis meddyg teulu hwnnw	✓		Dim ond os darperir ar ei gyfer yn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (neu un o'r gwasanaethau meddygol sylfaenol eraill a restrir uchod) y bydd y GMPI yn cynnwys dosbarthu. Dylai ymarferwyr wirio'r contract sydd ganddyn nhw gyda'r Bwrdd Iechyd ac os ydyn nhw'n dal i fod yn ansicr, dylent wirio hyn gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol. Nid yw gwasanaethau dosbarthu fferyllol a ddarperir o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (OS 2013/898) yn cael eu cynnwys yn y GMPI - hyd yn oed pan fyddant yn cael eu rhedeg o, neu gan, bractis meddygon teulu. Os ydych chi'n ansicr o'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaeth dosbarthu, bydd angen i chi wirio hyn gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol.
Dosbarthu – gan Fferylllydd sy'n gweithredu o fferyllfa breifat		x	Nid yw gwasanaethau dosbarthu fferyllol a ddarperir o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (OS 2013/898) yn cael eu cynnwys yn y GMPI – hyd yn oed pan fyddant yn cael eu rhedeg o, neu gan,

			bractis meddygon teulu. Os ydych chi'n ansicr o'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaeth dosbarthu, bydd angen i chi wirio hyn gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol.
Dosbarthu – gan Fferylllydd sy'n gweithredu o dan Reoliadau Gwasanaethau Fferyllol 2013		x	Nid yw gwasanaethau dosbarthu fferyllol a ddarperir o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (OS 2013/898) yn cael eu cynnwys yn y GMPI – hyd yn oed pan fyddant yn cael eu rhedeg o, neu gan, bractis meddygon teulu. Os ydych chi'n ansicr o'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaeth dosbarthu, bydd angen i chi wirio hyn gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol.
Chwistrellu/dyfrhau'r clustiau	✓		
Triniaeth frys	✓		Ond gweler 'Gweithredoedd Samariad Trugarog'.
Gwasanaethau ychwanegol (gan gynnwys gwasanaethau cenedlaethol, lleol a gwasanaethau ychwanegol dan gyfarwyddyd)	✓		Bydd gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y GMPI <u>ar yr amod</u> eu bod wedi'u nodi yn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Os ydych chi'n ansicr, dylech wirio'ch contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a/neu gysylltu â'r Bwrdd Iechyd perthnasol i gael eglurhad.
Materion moesegol		x	
Nodiadau ffitrwydd i weithio	✓		Mae teitl swydd/statws yr aelod o staff practis meddyg teulu sy'n cyflawni'r "gwasanaeth meddygol sylfaenol" yn amherthnasol er mwyn nodi a yw GMPI yn gymwys ai peidio.

			Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch aelodau staff Practis Meddyg Teulu sy'n ymgymryd â dyletswyddau clinigol newydd (e.e. nyrsys Practis Meddyg Teulu yn darparu nodiadau ffitrwydd i weithio) at eich Bwrdd Iechyd perthnasol.
Nodiadau ffitrwydd i weithio sy'n codi ffi		x	
Brechiadau rhag y fflw.	✓		Bydd brechlynnau fflw a ddarperir fel 'gwasanaethau meddygol sylfaenol' yn unol â diffiniad GIG Cymru 2006 uchod yn cael eu cynnwys yn y GMPI.
Brechiadau fflw ar gyfer staff practisiau meddygon teulu	✓		Bydd staff practis meddyg teulu sy'n rhoi (heb unrhyw dâl yn cael ei dalu) y brechlyn fflw i berson nad yw'n disgyn o fewn un o'r categorïau perygl i dderbyn y brechlyn fflw am ddim o dan y GIG, ond sy'n: 1. gydweithiwr yn eich practis meddyg teulu sydd/sy ddim yn glaf yn eich practis meddygon teulu; neu 2. yn aelod o staff o bractis meddyg teulu arall sy'n/nad yw'n glaf yn eich practis meddygon teulu, <u>yn</u> cael eu cynnwys yn y GMPI <u>ar yr amod</u> bod y person hwnnw'n cael y brechlyn er mwyn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i gleifion, <u>ac ar yr amod</u> bod eich Bwrdd Iechyd perthnasol yn ystyried bod y brechlyn yn 'wasanaeth meddygol sylfaenol' yn unol â'r diffiniad uchod.
'Gweithredoedd Samariad Trugarog'		x	Fel rheol ni fydd gwaith meddygon sy'n helpu pobl sydd angen cymorth

– meddygon yn helpu pobl sydd angen cymorth meddygol y tu allan i'w cyflogaeth mewn practis meddyg teulu, a elwir hefyd yn 'Weithredoedd Samariad Trugarog'			meddygol y tu allan i'w cyflogaeth mewn practis meddyg teulu yn cael ei ystyried yn waith gwasanaethau meddygol sylfaenol. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Arfarnwyr Meddygon Teulu		x	Nid yw rôl y Arfarnwr Meddygon Teulu yn cynnwys unrhyw waith clinigol na goruchwyliaeth. O'r herwydd, ni fyddai hyn yn arwain at hawliad esgeuluster clinigol ac <u>ni</u> fyddai'n cael ei gynnwys y GMPI.
Addysgwyr Meddygon Teulu / Goruchwyllo gwaith clinigol meddygon iau	✓		Bydd hawliad esgeuluster clinigol posibl neu wirioneddol sy'n codi pan fydd addysgwr meddyg teulu yn goruchwyllo gwaith clinigol meddyg iau yn cael ei gynnwys yn y GMPI ar yr amod bod y gweithgaredd sy'n cael ei oruchwyllo yn 'wasanaeth meddygol sylfaenol' y GIG yn unol â'r diffiniad uchod. Os ydych yn ansicr a yw gweithgaredd penodol yn 'wasanaeth meddygol sylfaenol', gwiriwch hyn gyda'ch Bwrdd Iechyd.
Meddygon Teulu dan Hyfforddiant	✓		
Adroddiadau HGV, adroddiadau DVLA, trwyddedau gwn ac ati sy'n codi ffi		x	Ni chaiff adroddiadau HGV, adroddiadau DVLA, trwyddedau gwn ac ati eu hystyried fel arfer yn wasanaethau meddygol sylfaenol. Dylech wirio gyda'ch Bwrdd Iechyd perthnasol a ddarperir ar gyfer gwaith o'r fath yn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.

Ymweliadau cartref (gan gynnwys ymweliadau â thrigolion mewn cartrefi nyrsio)	✓		Gan feddygon teulu, meddygon teulu dan hyfforddiant a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a gyflogir gan y practis meddygon teulu. Nid yw lleoliad y gweithgaredd yn berthnasol at ddibenion penderfynu a yw'r GMPI yn berthnasol.
Gwaith hosbis	✓		Nid yw lleoliad y gweithgaredd yn berthnasol at ddibenion penderfynu a yw'r GMPI yn berthnasol.
Gwelyau ysbyty	✓		Nid yw lleoliad y gweithgaredd yn berthnasol at ddibenion penderfynu a yw'r GMPI yn berthnasol. Gweler hefyd 'Ysbytai – gofal meddygon teulu a ddarperir mewn ysbytai cymunedol' isod.
Ysbytai – gofal meddygon teulu yn cael ei ddarparu mewn ysbytai cymunedol	✓		<u>OS yw'r gwasanaethau a ddarperir yn wasanaethau meddygol sylfaenol yn unol â'r diffiniad uchod (gweler tudalen 1 o'r Cwestiynau Cyffredin).</u> Ni chaiff unrhyw weithgareddau sydd y tu allan i ddiffiniad 'gwasanaethau meddygol sylfaenol' eu heffeithio arnynt gan y cynllun newydd a byddant yn parhau ar sail beth bynnag a gytunwyd yn flaenorol. O.N. Os yw'r Meddyg(on) Teulu yn cael ei gyflogi/eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol yna ni fydd y GMPI yn berthnasol. Bydd eich cyflogwr Bwrdd Iechyd yn gallu cadarnhau eich trefniadau indemniad.
Presgripsiynwyr annibynnol			<u>Gweler isod</u>—“Presgripsiynu – gan weithwyr iechyd proffesiynol cymwys eraill sy'n cael eu cyflogi gan bractis meddyg teulu e.e. presgripsiynwyr annibynnol”.

Adrodd i gwmni yswiria		x	Nid yw gwaith y telir amdano/gwaith preifat yn cael ei gynnwys yn y GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Meddygon Teulu Locwm	✓		<u>OS</u> byddant wedi cofrestru gyda Chofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan ac yn gweithio yn unol â thelerau'r gofrestr honno. Bydd gan feddygon teulu locwm ar y Gofrestr honno fynediad i'r cynllun ar gyfer GMPI. Mae angen i feddygon teulu locwm wneud cais i PCGC er mwyn cael eu cynnwys ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan os ydyn nhw am gael mynediad i'r cynllun ar gyfer GMPI. Bydd gan feddygon teulu fynediad at GMPI o'r dyddiad y cânt eu nodi ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan. Mae aelodaeth o Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan yn wirfoddol. Bydd angen i feddygon teulu locwm nad ydynt am ddod yn aelod o Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan drefnu yswiriant indemniad esgeuluster clinigol ar gyfer gwaith y GIG trwy sefydliad amddiffyn meddygol a bydd angen hysbysu PCGC (trwy'r cyswllt e-bost isod). I gofrestru i ddod yn aelod o Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan, cysylltwch ag Is-adran Gwasanaethau Cyflogaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk Ffôn:01792 860498/0490

			Gwefan: https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-cyflogaeth/cynaliadwyedd-gofal-sylfaenol/ D.S. Nid oes angen i feddygon teulu sy'n gwneud gwaith locwm y tu allan i'w sesiynau arferol ond <u>dim ond</u> yn eu practis meddygon teulu ymuno â Chofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan er mwyn i'r gwaith hwn gael ei yswirio gan GMPI. Fodd bynnag, os yw meddyg teulu yn gwneud gwaith locwm yn <u>rhywle arall</u>, mae angen iddo ymuno â Chofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan i gael ei yswirio gan GMPI.
Staff locwm <u>nad</u> ydynt yn feddygon teulu	✓		Caiff pob meddyg teulu a gweithiwr ieuchyd proffesiynol a gyflogir mewn practisiau meddygol cyffredinol a/neu drwy drefniadau clwstwr Gofal Sylfaenol ac sy'n darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y GIG eu hyswirio'n awtomatig. D.S. Nid oes angen i staff locwm nad ydynt yn feddygon teulu gofrestru ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan. Fodd bynnag, mae cael eich rhestru ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) yn rhan angenrheidiol o'r trefniadau.
Clinigau cof	✓		<u>Ar yr amod</u> ei fod yn wasanaeth meddygol sylfaenol GIG (Cymru) yn unol â'r diffiniad uchod ac nid o dan drefniant gwahanol.
Gofal Iechyd a gomisiynir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD)		x	Ni fydd ymarferwyr a gyflogir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael eu hyswirio gan y cynllun GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch

			cyflogwr/sefydliad amddiffyn meddygol ynglŷn â'ch sefyllfa indemnio.
Mân lawdriniaethau	✓		<u>Ar yr amod</u> ei fod yn wasanaeth meddygol sylfaenol GIG (Cymru) yn unol â'r diffiniad uchod ac nid o dan drefniant gwahanol e.e. preifat/y talwyd amdano. Gweler hefyd 'Gwasanaethau ychwanegol' uchod.
Diffynnydd a enwir/cyfranogiad meddygon teulu/staff meddygon teulu mewn hawliadau	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Y Byrddau Iechyd yng Nghymru fydd y Diffynnydd a enwir ar gyfer cyfreitha esgeuluster clinigol yn hytrach na'r meddygfeydd. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn gweithredu ar ran Byrddau Iechyd ac yn cael cyfarwyddiadau ganddynt mewn perthynas â'r ymglyfreitha, a byddant yn ceisio tystiolaeth a barn ar strategaeth gan bractisiau meddygon teulu a'u staff. Er mai'r Byrddau Iechyd fydd y cleient at ddibenion ymglyfreitha, cymerir barn staff unigol o ddifrif a byddant yn cael eu trin yn deg ac yn rhesymol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd bod hawliadau meddygon teulu am esgeuluster clinigol yn cael eu hamddiffyn yn gadarn gan Fyrddau Iechyd a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg er mwyn gwarchod enw da'r meddygon teulu.
Derbyn gwasanaethau'r GIG yn dilyn triniaeth breifat	✓		
Hawliadau/cwynion oherwydd esgeuluster anghlinigol		x	Nid yw'r GMPI yn cwmpasu hawliadau/cwynion nad ydynt yn gysylltiedig ag esgeuluster clinigol. Gweler tudalen 29 o 'Ganllawiau ar y

			Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol' Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.
Adroddiadau Iechyd Galwedigaethol - preifat/y talwyd amdano		x	Nid yw gwaith y telir amdano/gwaith preifat yn cael ei gynnwys yn y GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol		x	Ni fydd y mwyafrif o frechlynnau iechyd galwedigaethol yn dod o dan y GMPI. Fodd bynnag, os yw darparu gwasanaeth o'r fath o fewn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (neu un o'r gwasanaethau meddygol sylfaenol a restrir uchod), gall ddod o dan y GMPI. Bydd angen i chi wirio'ch contract ac os ydych chi'n dal i fod yn ansicr, gwiriwch gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol.
Gwasanaethau Meddygol Tu Allan i Orlau	✓		Caiff gwasanaethau y tu allan i oriau a ddarperir drwy drefniadau cytundebol rhwng Bwrdd Iechyd a darparwr/is-gontractwr annibynnol eu cynnwys yn y cynllun ar gyfer GMPI. Mae hyn yn cynnwys unrhyw staff locwm neu staff asiantaeth sy'n ymwneud â darparwr/is-gontractwr annibynnol o'r fath. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bob meddyg locwm sy'n ymwneud â darparwr/is-gontractwr annibynnol (ac eithrio'r rhai sy'n gwneud gwaith locwm yn ei bractis meddyg teulu ei hun yn unig) ymuno â Chofrestr Locwm Cymru Gyfan, i gael mynediad i'r cynllun ar gyfer GMPI. Caiff unrhyw gyflogaion, gweithwyr locwm, gweithwyr asiantaeth neu weithwyr banc sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd eu cynnwys gan drefniadau indemniad safonol y GIG.

Cleifion sy'n ymwelwyr tramor	✓		O 1 Ebrill 2019, mae clinigwr yng Nghymru sy'n trin ymwelydd tramor yn dod o dan y cynllun GMPI cyhyd â'i fod yn darparu gofal sy'n dod o fewn y diffiniad o 'wasanaethau meddygol sylfaenol' yn unol â'r diffiniad uchod. Os y daw i'r amlwg yn ddiweddarach na fydd gan y claf sy'n ymwelydd tramor yr hawl i'r gofal a gafodd am ddim, ni ddylai hyn wahardd y clinigwr sy'n trin rhag cael ei indemnio o dan y cynllun. Mewn achos annhebygol y bydd claf sy'n ymwelydd tramor wedi dwyn hawliad esgeuluster clinigol yn ei wlad enedigol yn erbyn y clinigwr a'i driniodd, dylai'r clinigwr gysylltu â'r tîm GMPI.
Cymdeithion Meddyg	✓		
Presgripsiynu – gan feddyg teulu	✓		<u>Ar yr amod</u> ei fod yn wasanaeth meddygol sylfaenol GIG (Cymru) yn unol â'r diffiniad uchod ac nid o dan drefniant gwahanol, e.e. preifat/y talwyd amdano.
Presgripsiynu – gan Fferyllydd wedi'i leoli yn y gymuned a gyflogir gan bractis meddyg teulu	✓		Fferyllydd sy'n cymryd rhan o dan drefniant gwasanaethau meddygol sylfaenol fel contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol e.e. bydd archwilio cleifion a phresgripsiynu yn cael ei gwmpasu gan y cynllun.
Presgripsiynu – gan Fferyllydd wedi'i leoli yn y gymuned a gyflogir gan Fwrdd Iechyd		x	Mae fferyllydd sy'n gweithio yn y gymuned a gyflogir gan Fwrdd Iechyd yn debygol o gael eu hyswiro gan indemniad presennol y GIG. Gallwch gadarnhau hyn gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol
Presgripsiynu – gan Fferyllydd a gyflogir	✓		

gan bractis meddyg teulu			
Presgripsiynu – gan weithwyr iechyd proffesiynol cymwys eraill sy'n cael eu cyflogi gan bractis meddyg teulu e.e. presgripsiynwyr annibynnol	✓		
Gofal iechyd mewn carchardai ac amgylcheddau diogel eraill (e.e. sefydliadau troseddwyd ieuencid)			Bydd angen i chi ofyn i'ch cyflogwr egluro'r trefniadau yswiriant neu indemniad angenrheidiol ar gyfer y gwaith yr ydych yn ei wneud. Os ydych yn gyflogedig neu yn cael eich talu i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd mewn carchar preifat neu amgylchedd diogel preifat, mae gwaith o'r fath yn annhebygol o ddod o fewn cwmpas y Cynllun ar gyfer GMPI. Bydd angen i chi wirio sefyllfa eich indemniad gyda'ch cyflogwr. Os ydych yn gyflogedig neu yn cael eich talu yn uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd i gyflawni'r gweithgareddau hyn, mae'n debygol y bydd trefniadau indemniad presennol y GIG yn berthnasol i chi. Bydd angen i chi wirio'r trefniant sydd gennych ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd. Os darperir y gweithgaredd hwn trwy gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol bydd yn cael ei gynnwys yn y GMPI. Os darperir y gweithgaredd hwn drwy drefniant is-gontractiwr heb ei gomisiynu gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gyda'r Bwrdd

			lechyd, bydd angen i chi wirio gyda'r Bwrdd lechyd a yw'r trefniant hwn yn dod o fewn y diffiniad o "wasanaethau meddygol sylfaenol". Os yw'n dod o fewn y trefniadau hynny, yna bydd eich gwaith yn cael ei gynnwys yn y GMPI.
Gwasanaethau meddygol preifat, gan gynnwys llythyrau preifat		x	Nid yw gwaith y telir amdano/gwaith preifat yn cael ei gynnwys yn y GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Presgripsiynau preifat		x	Nid yw gwaith y telir amdano/gwaith preifat yn cael ei gynnwys yn y GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Amser Addysgol Neilltuedig (PET) – Meddygon Teulu yn cyflenwi ar gyfer Practis arall	✓		Bydd meddygon teulu sy'n gwasanaethu Practis arall er mwyn caniatáu ar gyfer Amser Addysgol Neilltuedig (PET) yn cael eu cynnwys yn yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol OS ydynt wedi cofrestru gyda'r AWLR (Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan) ac yn gweithio yn unol â'i thelerau (mae hyn yn cynnwys cofnodi'r sifftiau perthnasol ar Locum Hub Wales (LHW). Mae angen i bractisiau sicrhau bod unrhyw staff sy'n gweithio mewn Practis arall ar gyfer PET yn cael eu rhestru ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) hefyd. Ar gyfer llywodraethu da, rydym yn argymhell bod trefniadau cyflenwi sydd ar waith rhwng Practisiau yn cael eu dogfennu'n briodol mewn cytundeb ysgrifenedig.

			Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r WNWRS neu'r AWLR/LHW cysylltwch â Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC drwy NWSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk Gweler 'Meddygon Teulu Locwm' uchod i gael rhagor o wybodaeth am ofynion penodol Meddygon Teulu Locwm.
Amser Dysgu Neilltuedig (PLT) – Meddygon Teulu yn cyflenwi ar gyfer Practis arall			Gweler 'Amser Addysgol Neilltuedig (PET) – Meddygon Teulu yn cyflenwi ar gyfer Practis Meddyg Teulu arall' uchod.
Ymchwil e.e. treialon clinigol – dyluniad		x	Ni fydd dyluniad gwaith ymchwil yn cael ei gwmpasu gan y GMPI. Gweler y gwahaniaethiad o weithredu isod.
Ymchwil e.e. treialon clinigol – gweithredu gan gorff y GIG	✓		Bydd gweithredu treialon clinigol trwy ddarparu gofal i gleifion yng nghyddestun trefniadau gwasanaethau meddygol sylfaenol yn cael ei gwmpasu gan y GMPI. Rhwch wybod i'ch Bwrdd Iechyd Lleol am unrhyw weithgareddau o'r fath sy'n cael eu cynnal.
Ymchwil e.e. treialon clinigol – gweithredu gan gorff preifat		x	Ni fydd gwaith sy'n ymwneud â threialon clinigol a wneir yn breifat yn cael ei gwmpasu gan y cynllun GMPI. Bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynghylch eich yswiriant indemniad.
Ceisiadau am adroddiad diogelu sy'n denu ffi		x	Fel rheol, bydd cynhyrchu/darparu adroddiad diogelu am ffi yn cael ei ystyried yn waith preifat/y talir amdano ac ni fydd y GMPI yn ei gwmpasu a bydd angen i chi gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol ynglŷn â sefyllfa eich indemniad.

Ceisiadau am adroddiad diogelu nad ydynt yn denu ffi	✓		Bydd cynhyrchu/darparu adroddiad diogelu fel 'gwasanaeth meddygol sylfaenol' yn unol â'r diffiniad uchod nad yw'n denu ffi yn cael ei gwmpasu gan y GMPI.
Adran 12 Deddf Iechyd Meddwl 1983 – gweithgareddau o dan yr Adran hon			Bydd angen i chi wirio'r trefniant sydd gennych ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd. Os yw'r gweithgaredd sy'n cael ei wneud o fewn eich contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol neu drefniant gwasanaeth meddygol sylfaenol arall sydd gennych gyda'r Bwrdd Iechyd, bydd yn cael ei gwmpasu gan y GMPI.
Gwasanaethau iechyd rhywiol	✓		<u>Ar yr amod</u> ei fod yn wasanaeth meddygol sylfaenol GIG (Cymru) yn unol â'r diffiniad uchod ac nid o dan drefniant gwahanol.
Myfyrwyr – e.e. myfyrwyr meddygol, myfyrwyr nyrsio	✓		
Trigolion dros dro <u>yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd</u> (neu unrhyw wlad arall sydd â threfniadau cyfatebol) h.y. cleifion sy'n byw yn nalgylch y meddyg teulu am hyd at 3 mis	✓		Gall canlyniad Brexit newid y sefyllfa.
Brechlynnau teithio – cyngor am frechlynnau teithio	✓		
Brechlynnau teithio – cyflenwi a rhoi gan godi tâl ar y claf		x	Nid yw'r GMPI yn cwmpasu brechlynnau y telir amdanynt/preifat. Bydd angen indemniad eu hunain ar staff ar gyfer unrhyw waith preifat o'r fath a wneir.

Brechlynnau teithio – cyflenwi a rhoi heb godi unrhyw dâl ar y claf	✓		
Fasectomi	✓		Fodd bynnag, os cyflawnir y gweithgaredd hwn yn breifat ar gyfer y claf, ni fydd y GMPI yn berthnasol. Bydd angen indemniad eu hunain ar staff ar gyfer unrhyw waith preifat o'r fath a wneir.
Ymgynghoriadau rhithwir e.e. ymgynghoriadau fideo/grŵp fideo/ffôn	✓		Mae lleoliad lle dapreri'r 'gwasanaeth meddygol sylfaenol' (yn unol â'r diffiniad uchod) yn amherthnasol.
System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn gallu adnabod y meddygon teulu a'r gweithwyr iechyd proffesiynol hynny a gyflogir mewn practisiau meddygon teulu sydd â mynediad i'r cynllun drwy ddefnyddio'r System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu. Felly, mae cael eich rhestru ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu yn rhan angenrheidiol o'r trefniadau. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y wefan ganlynol: https://pcgc.qig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-cyflogaeth/cynaliadwyedd-gofal-sylfaenol/ Dylid anfon unrhyw ymholiadau/diweddariadau at: E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk Ffôn: 01792 860498/0490
Galw Iechyd Cymru			Mae clinigwyr fel arfer yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd felly bydd

			indemniad presennol y GIG yn berthnasol. Os ydych chi'n ansicr, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd perthnasol neu'r tîm GMPI yn GMPI@wales.nhs.uk .
--	--	--	--